

Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2021-22 a'i gynllun pum mlynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2020-21 a 2024-25

Tachwedd 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddPLL

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 2006368**
E-bost: **seneddPLL@senedd.cymru**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2021- 22 a'i gynllun pum mlynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2020-21 a 2024-25

Tachwedd 2020



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ym mis Medi 2020. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddPLL

Cadeirydd y Pwyllgor:



Ann Jones AS
Yn rhinwedd swydd Ann fel
Dirprwy Lywydd
Llafur Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Suzy Davies AS
Ceidwadwyr Cymreig



Llyr Gruffydd AS
Yn rhinwedd swydd Llyr fel
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Plaid Cymru



Dai Lloyd AS
Plaid Cymru



Rhiannon Passmore AS
Llafur Cymru



David J Rowlands AS
Y Gyng rhair Annibynnol dros
Ddiwygio*

*Ar 23 Medi 2020, etholwyd David J Rowlands AS yn Aelod o Bwyllgor y Llywydd ar ran grŵp Plaid Brexit. Ymddiswyddodd David o grŵp Plaid Brexit ar 16 Hydref 2020 ac ymunodd â grŵp y Gyng rhair Annibynnol dros Ddiwygio. Ar 11 Tachwedd 2020, etholwyd David yn aelod o'r Pwyllgor ar ran grŵp Y Gyng rhair Annibynnol dros Ddiwygio.

Cynnwys

Casgliadau ac argymhellion.....	5
1. Cyflwyniad.....	7
Trefniadau cyllido'r Comisiwn Etholiadol yn y gorffennol	7
Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020	7
Pwyllgor y Llywydd.....	8
2. Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2020-21 a'i gynllun pum mlynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2020-21 a 2024-25	11
Manteision datganoli'r trefniadau cyllido ac atebolwydd	11
Yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2021-22	12
Y cynllun pum mlynedd ar gyfer 2024-25	20
Atodiad: Yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2021-22	23

Casgliadau ac argymhellion

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2021-22 yn gyson â'r angen i'r Comisiwn Etholiadol arfer ei swyddogaethau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru.
.....Tudalen 15

Casgliad 2. Bydd y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth bellach i'r goblygiadau posibl i Gronfa Gyfunol Cymru o gynnwys dibrisiant yn amcangyfrifon y Comisiwn Etholiadol yn y dyfodol.
.....Tudalen 20

Casgliad 3. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y cynllun pum mlynedd a gyflwynwyd yn gyson â'r angen i'r Comisiwn Etholiadol arfer ei swyddogaethau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, sy'n cynnwys swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru.....Tudalen 22

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn Etholiadol, yn ystod 2021-22, yn adolygu cywirdeb ei amcangyfrifon yn barhaus o ran sut y bydd amser staff yn cael ei dreulio. Gellir cynnal adolygiad o'r fath drwy ddull sy'n isel ei gostau, er enghraifft trwy ddefnyddio samplu. Os yw adolygiad o'r fath yn canfod bod yr amser a dreulir gan staff ar waith sy'n ymwneud ag etholiadau datganoledig Cymru yn sylweddol wahanol i'r amser y rhoddwyd cyfrif amdano yn yr amcangyfrif ar gyfer 2021-22, dylai'r Comisiwn Etholiadol adolygu ei ddull o lunio'r cyfryw amcangyfrif yn y dyfodol.....Tudalen 14

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn Etholiadol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw gynnydd yn y costau yn sgil y pandemig Covid-19 ac a yw'n debygol y bydd angen amcangyfrif diwygiedig ar gyfer y costau hynny.
.....Tudalen 18

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn Etholiadol yn cyflwyno amcangyfrifon ariannol manylach yn y dyfodol i gynnwys costau penodol ym mhob llinell gyllideb, ynghyd â chyfansymiau costau penodol o'r fath ac esboniad o'r modd y cafodd y costau eu cyfrifo.....Tudalen 19

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y cynllun pum mlynedd newydd yn cynnwys cymaint o fanylion â phosibl am y modd y bydd swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru yn cael eu harfer yn ystod cyfnod y cynllun, gan gynnwys costau, amserlenni a cherrig milltir ar gyfer y gwaith hwn.....Tudalen 22

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y cynllun pum mlynedd newydd yn nodi mesurau perfformiad sy'n benodol i gyflawni swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru.....Tudalen 22

1. Cyflwyniad

Mae Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn darparu ar gyfer cyllido gwaith y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau a refferenda datganoledig Cymru o Gronfa Gyfunol Cymru. Roedd y Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer sefydlu pwyllgor newydd o Senedd Cymru, sef Pwyllgor y Llywydd, i fod yn gyfrifol am graffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol a'i gynlluniau pum mlynedd mewn perthynas â gwaith y Comisiwn ar etholiadau a refferenda datganoledig Cymru.

Trefniadau cyllido'r Comisiwn Etholiadol yn y gorffennol

1. Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU.
2. Cyn i adran 28 o **Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020** ('Deddf Senedd ac Etholiadau') ddod i rym, roedd y Comisiwn Etholiadol yn cael ei gyllid craidd gan Senedd y DU.¹ **Pwyllgor y Llefarydd ar y Comisiwn Etholiadol** yn Senedd y DU oedd yn cytuno ar amcangyfrifon ariannol a chynlluniau pum mlynedd y Comisiwn Etholiadol ac roedd y Comisiwn yn atebol i'r Pwyllgor hwnnw am ei holl wariant.

Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

3. Diwygiwyd **Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000** ('PPERA') gan y **Ddeddf Senedd ac Etholiadau** i ddarparu i waith y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau a refferenda datganoledig Cymru gael ei gyllido o Gronfa Gyfunol Cymru.²
4. Mae'r **Ddeddf Senedd ac Etholiadau** yn darparu hefyd bod y Comisiwn Etholiadol yn atebol i Senedd Cymru am ei waith a'i wariant ar etholiadau a refferenda datganoledig

¹ Yn ogystal â chael cyllid craidd caiff y Comisiwn Etholiadol ymgymryd â rhai gweithgareddau ar gais Gweinidogion Cymru, Gweinidogion y DU neu Weinidogion yr Alban, neu Gomisiwn y Senedd, a chael ei adalu am waith o'r fath.

² Paragraff 16A(1) o Atodlen 1 i Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

Cymru.³ Mae adran 28 o'r **Ddeddf Senedd ac Etholiadau** yn nodi, yng Nghymru, y bydd y gwaith craffu ar y Comisiwn Etholiadol yn cael ei wneud gan bwyllgor newydd o Senedd Cymru, sef Pwyllgor y Llywydd ('y Pwyllgor').

Pwyllgor y Llywydd

5. Sefydlwyd Pwyllgor y Llywydd trwy benderfyniad Senedd Cymru. Cytunwyd ar y cynnig i sefydlu'r Pwyllgor ar 23 Medi 2020 a daeth i rym ar 1 Hydref 2020.
6. Bob blwyddyn, rhaid i'r Comisiwn Etholiadol gyflwyno i'r Pwyllgor amcangyfrif o'i wariant ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru. Ar rai adegau, rhaid i'r Comisiwn Etholiadol hefyd gyflwyno i'r Pwyllgor gynllun pum mlynedd yn pennu nodau ac amcanion y Comisiwn mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru yn y cyfnod dilynol o bum mlynedd. Ar 1 Hydref 2020, cyflwynodd y Comisiwn Etholiadol ei **amcangyfrif ariannol ar gyfer 2021-22** a **chynllun pum mlynedd ar gyfer 2020-21 i 2024-25**⁴ i'r Pwyllgor. Ar 15 Hydref, cyflwynodd y Comisiwn Etholiadol **wybodaeth ychwanegol** am yr amcangyfrif.
7. Cyn datblygu ei amcangyfrif, hysbyswyd y Comisiwn Etholiadol fod Pwyllgor Cyllid y Senedd wedi cyhoeddi ei **Ddatganiad o Egwyddorion** ym mis Mai 2019. Mae disgwyl i gyrff sy'n cael eu cyllido'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru roi sylw i'r Datganiad hwn wrth wneud cynigion o ran y gyllideb. Yn ôl y Datganiad o Egwyddorion, dylid gosod ceisiadau cyllidebol yng nghyd-destun y sefyllfa ariannu hirdymor yng Nghymru, a'r pwysau ariannol sy'n bodoli yn y sector cyhoeddus ehangach, a dylai unrhyw gais am gyllid ychwanegol gael ei gefnogi â thystiolaeth o'r angen a'r budd sy'n gysylltiedig â'r cais, a thystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed i leihau costau.
8. Rhaid i Bwyllgor y Llywydd graffu ar unrhyw amcangyfrifon a chynlluniau a gyflwynir iddo gan y Comisiwn Etholiadol er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â rôl y Comisiwn o ran cyflawni ei swyddogaethau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol⁵ mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig Cymru. Mae'r adroddiad

³ Adran 28 o'r Ddeddf Senedd ac Etholiadau, ac Atodlen 2 iddi.

⁴ Y cynllun pum mlynedd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yw Cynllun Corfforaethol Dros Dro y Comisiwn Etholiadol ar gyfer y cyfnod rhwng 2020-21 a 2024-25. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae'r Cynllun Corfforaethol Dros Dro yn cael ei ddiweddarau.

⁵ Paragraff 16A(7)(b) o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

hwn yn ymwneud â gwaith craffu'r Pwyllgor ar yr **amcangyfrif** a'r **cynllun pum mlynedd** cyntaf a gyflwynodd y Comisiwn Etholiadol iddo.

9. Cyfarfu'r Pwyllgor ar 6 Tachwedd 2020 i graffu ar yr **amcangyfrif** a'r **cynllun** a gyflwynwyd ar 1 Hydref 2020. Roedd y cynrychiolwyr canlynol o'r Comisiwn Etholiadol yn bresennol:

- Elan Closs Stephens (Comisiynydd Etholiadol Cymru)
- Bob Posner (Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu)
- Kieran Rix (Cyfarwyddwr Cyllid)
- Rhydian Thomas (Pennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru)

10. Er mwyn helpu'r Pwyllgor gyda'i waith craffu ar amcangyfrifon a chynlluniau'r Comisiwn Etholiadol, rhaid i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol⁶ gynnal archwiliad gwerth am arian ynghylch defnydd y Comisiwn Etholiadol o adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau yn ymwneud ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru, a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor. Cyflwynwyd **adroddiad** i'r Pwyllgor gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar 20 Hydref 2020 a chafodd ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 6 Tachwedd 2020. Nid oedd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar archwiliad gwerth am arian o ddefnydd y Comisiwn Etholiadol o adnoddau mewn perthynas â'i weithgareddau yng Nghymru. Yn hytrach mae'n crynhoi gwaith y Comisiwn Etholiadol gan gynnwys yr hyn y mae'n ei wneud, faint y mae'n ei gostio, a newidiadau diweddar ac arfaethedig.⁷

11. Rhaid i'r Pwyllgor ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar unrhyw amcangyfrifon a chynlluniau a gyflwynir iddo gan y Comisiwn Etholiadol, a rhaid iddo roi sylw i unrhyw gyngor a ddarperir gan Weinidogion Cymru, cyn penderfynu a yw'n fodlon â'r amcangyfrifon a'r cynlluniau. Rhannodd y Pwyllgor **amcangyfrif y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2021-22** a'i **gynllun pum mlynedd** â'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Tai a

⁶ Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn y Deyrnas Unedig yw swyddog y llywodraeth sy'n gyfrifol am oruchwylio ansawdd cyfrifyddu cyhoeddus ac adroddiadau ariannol. Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn swyddog yn Nhŷ'r Cyffredin sy'n bennaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sef y corff sy'n craffu ar wariant y llywodraeth ganolog.

⁷ Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Arweiniad Cryno i'r Comisiwn Etholiadol, (Saesneg yn unig) Mawrth 2020, tudalen 2.

Llywodraeth Leol ar 9 Hydref 2020. Yn ei **ymateb**, a ddaeth i law ar 9 Tachwedd, cadarnhaodd y Prif Weinidog fel a ganlyn:

“bod y gweithgareddau a ddisgrifiwyd gan y Comisiwn Etholiadol yn yr amcangyfrif a’r cynllun pum mlynedd yn gyson â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â’r hyn a fydd yn ofynnol yn ystod y cyfnodau a gwmpesir ganddynt.”⁸

12. Ar ôl ystyried amcangyfrif a chynllun a gyflwynwyd gan y Comisiwn Etholiadol, adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a chynghor Gweinidogion, rhaid i'r Pwyllgor osod amcangyfrif (a chynllun pum mlynedd os oes angen) gerbron Senedd Cymru, naill ai gydag addasiadau gan y Pwyllgor neu heb unrhyw addasiadau. Mae Rheol Sefydlog 20.20B yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor osod amcangyfrif a chynllun erbyn 22 Tachwedd.

13. Yna, bydd yr amcangyfrif a osodir gan y Pwyllgor yn ymddangos yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol, i'w gytuno gan Senedd Cymru.⁹

⁸ **Llythyr** oddi wrth y Prif Weinidog at Gadeirydd Pwyllgor y Llywydd, 2 Tachwedd 2020

⁹ Gweler **Rheol Sefydlog** 20 am esboniad o broses y gyllideb yn y Senedd.

2. Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2020-21 a'i gynllun pum mlynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2020-21 a 2024-25

Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2021-22 a'i gynllun pum mlynedd, a chasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn sgil ei waith craffu ar yr amcangyfrif a'r cynllun.

Manteision datganoli'r trefniadau cyllido ac atebolrwydd

14. Mae datganoli trefniadau cyllido ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol o ran etholiadau a refferenda datganoledig Cymru yn dod yn sgil Deddf Cymru 2017 a wnaeth ddarpariaeth i ddatganoli'r cyfrifoldeb am etholiadau datganoledig Cymru i Senedd Cymru.

15. Gan fyfyrir ar fanteision y newidiadau cyfansoddiadol hyn, dywedodd y Prif Weithredwr fel a ganlyn:

"devolution does offer opportunities. It offers us opportunities, as we see it, in the context of a framework of, it has to be said, a lot of electoral law is dated, and it's complex and it's difficult, and we see that."¹⁰

16. Rhoddodd Comisiynydd Etholiadol Cymru enghraifft benodol o fantais o'r fath:

"your Senedd and Elections Act of 2020 also offered us possibilities about modernising the electoral system. So, it's always good to see a country taking a lead role and perhaps showing that some modernisation should not be feared as much as it is feared in some quarters, and that we can, perhaps, make our law rather more straightforward and more fit for the twenty-first century."¹¹

¹⁰ Pwyllgor y Llywydd, Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2020, paragraff 30.

¹¹ Pwyllgor y Llywydd, Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2020, paragraff 35.

17. Ar y manteision o ddatganoli'r trosolwg o broses reoleiddio etholiadau datganoledig Cymru i'r Senedd, dywedodd y Prif Weithredwr:

"The addition, for us, of financial accountability to you as well [as the Speaker's Committee] enables us to focus even more on how we do our work for you, be it on campaigns, be it how we deliver the elections."¹²

Yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2021-22

Y sail a ddefnyddiwyd i baratoi'r amcangyfrif

18. Wrth ateb cwestiwn ar sut mae **Datganiad o Egwyddorion** Pwyllgor Cyllid y Senedd wedi cael ei ystyried wrth baratoi'r **amcangyfrif** dywedodd Cyfarwyddwr Cyllid y Comisiwn Etholiadol:

"We are well aware of the principles and we did have regard to them in preparing our budget. [Our] statutory accounting officer, has to apply a set of rules called managing public money¹³, which are a UK-wide set of rules. Most principles cascade through the whole of the UK public sector. They require, for example, that the budget be taut and realistic...and prudent. We've always had regard to the wider public sector spending pressures and budget pressures in our budget"¹⁴

19. Fel yr eglurwyd yn y **llythyr** a ddaeth gyda'r **amcangyfrif**, mae'r holl gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i waith y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau a refferenda datganoledig Cymru wedi'u cynnwys yn yr **amcangyfrif**. Cyfeirir at y rhain fel costau uniongyrchol. Mae'r **llythyr** yn egluro bod yr **amcangyfrif** hefyd yn cynnwys cyfran o'r costau y cyfeirir atynt fel costau anuniongyrchol. Mae'r rheini'n cynnwys holl gostau'r Comisiwn Etholiadol heblaw'r rhai y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i etholiadau'r DU, yr Alban, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, a chostau arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â phwerau a gadwyd yn ôl. Yn y **wybodaeth ychwanegol** a gyflwynwyd ar 15 Hydref eglurir bod y gyfran o gostau anuniongyrchol y Comisiwn Etholiadol a gynhwysir yn yr **amcangyfrif** yn adlewyrchu poblogaeth Cymru fel cyfran o boblogaeth y DU, hynny yw

¹² Pwyllgor y Llywydd, Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2020, paragraff 33.

¹³ 'Managing Public Money' yw llawlyfr Trysorlys y DU ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am wario arian cyhoeddus. Ei nod yw sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n briodol ac er budd y cyhoedd.

¹⁴ Pwyllgor y Llywydd, Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2020, paragraff 42.

4.72 y cant. Yn y **llythyr** a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gyda'r **amcangyfrif** dywedodd y Comisiwn Etholiadol fel a ganlyn:

“Mae’r costau anuniongyrchol y bydd y Senedd yn cyfrannu atynt yn sail i waith ehangach y Comisiwn wrth sicrhau tegwch, ymddiriedolaeth, a hyder yn ein prosesau democrataidd. Mae’r gwaith hwn yn cael ei gyflawni gan ddimoddd rheoleiddio, y gyfraith, polisi, cyfathrebu a chanllawiau ledled y DU. Mae’n cynnwys sicrhau ansawdd uchel mewn cofrestru a gweinyddu etholiadol ar draws y DU, a rhoi tryloywder i bleidleiswyr ynghylch yr arian a werir ac a dderbynnir gan bleidiau ac ymgyrchwyr. Mae cyfran y Senedd o’r costau hyn hefyd yn cefnogi buddsoddi mewn rhaglenni gwaith i gynyddu hyder yn ein prosesau etholiadol.”¹⁵

20. Gan fyfyrto ar y broses o baratoi'r amcangyfrif dywedodd Cyfarwyddwr Cyllid y Comisiwn Etholiadol:

“The costs that are directly related to Welsh functions, what we do is we start to build the budget up by activity, so where it's a specifically Welsh activity, we will be able to identify that very early in the budgeting process. It's been quite easy to identify some items of expenditure: things that we're purchasing, in particular, that relate to it directly, we can identify comparatively simply. Pay is a bit more difficult—that's where we experience more difficulties. We have to estimate what individual members of staff will be doing more than a year in advance, and naturally that involves an element of judgment. So, our finance team work very closely with budget managers to try and estimate what people will be spending their time on, and we keep that under review during the year, so that if it does change wildly, we can always make some adjustments if we need to. That is inevitably subjective when you're looking forward, and that's the biggest challenge.”¹⁶

Safbwynt y Pwyllgor

21. Mae'n briodol bod yr amcangyfrif a gyflwynwyd i'r Senedd yn cynnwys holl gostau'r Comisiwn Etholiadol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r gwaith o reoleiddio a chefnogi

¹⁵ Llythyr at y Pwyllgor gan y Comisiwn Etholiadol, 1 Hydref 2020.

¹⁶ Pwyllgor y Llywydd, Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2020, paragraff 54.

etholiadau a refferenda datganoledig Cymru, a bod y costau hynny yn cael eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru.

22. Mae'n rhesymol bod yr amcangyfrif yn cynnwys cyfran o gostau anuniongyrchol y Comisiwn Etholiadol (megis gorbenion), gan fod gwariant o'r fath yn helpu i sicrhau effeithiolrwydd a thryloywder etholiadau yng Nghymru. Mae'n ymddangos bod dosraniad y Comisiwn Etholiadol o'i gostau anuniongyrchol ar sail maint y boblogaeth yn briodol o ystyried budd cymharol gwariant o'r fath i Gymru.

23. Mae hyn yn golygu y bydd y Comisiwn Etholiadol yn atebol i Senedd Cymru, trwy Bwyllgor y Llywydd, am ei holl waith uniongyrchol a'i wariant uniongyrchol ar etholiadau a refferenda datganoledig Cymru, ac am gyfran o'i wariant craidd fel sefydliad.

24. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y cymhlethdod o amcangyfrif fisoedd ymlaen llaw sut yn union y bydd staff yn rhannu eu hamser rhwng gwahanol agweddau ar waith y Comisiwn Etholiadol, er mwyn cyfrifo'r costau i'w cynnwys yn yr **amcangyfrif**. Er bod y fethodoleg a ddefnyddir yn ymddangos yn drylwyr, mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Comisiwn Etholiadol y dylai fonitro sut mae amser staff yn cael ei dreulio yn ystod 2021-22, a bod cywirdeb yr amcangyfrifon o ran costau staffio yn cael eu hadolygu yn unol â hynny.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn Etholiadol, yn ystod 2021-22, yn adolygu cywirdeb ei amcangyfrifon yn barhaus o ran sut y bydd amser staff yn cael ei dreulio. Gellir cynnal adolygiad o'r fath drwy ddull sy'n isel ei gostau, er enghraifft trwy ddefnyddio samplu. Os yw adolygiad o'r fath yn canfod bod yr amser a dreulir gan staff ar waith sy'n ymwneud ag etholiadau datganoledig Cymru yn sylweddol wahanol i'r amser y rhoddyd cyfrif amdano yn yr amcangyfrif ar gyfer 2021-22, dylai'r Comisiwn Etholiadol adolygu ei ddull o lunio'r cyfryw amcangyfrif yn y dyfodol.

Costau Trosfwaol

25. Cyfanswm yr **amcangyfrif** a gyflwynwyd gan y Comisiwn Etholiadol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22 yw £1.75 miliwn. Ym mis Mawrth 2019, wrth baratoi'r **Ddeddf Senedd ac Etholiadau**, amcangyfrifodd y Comisiwn Etholiadol y byddai cost ei waith mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru yn gyfanswm o £1.6 miliwn mewn blwyddyn etholiad.¹⁷

¹⁷ Memorandwm Esboniadol y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), paragraff 133, tudalen 436.

Safbwynt y Pwyllgor

26. Nid yw'r **cynllun pum mlynedd** a gyflwynwyd gan y Comisiwn Etholiadol yn cynnwys manylion am y gwaith sydd ar y gweill gan y Comisiwn mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru yn ystod 2021-22. Gwnaeth hyn hi'n anodd asesu'n fanwl i ba raddau y mae'r costau a amcangyfrifwyd yn rhesymol er mwyn i'r Comisiwn Etholiadol allu ymgymryd â gwaith o'r fath yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae'r **llythyr** sy'n cyd-fynd â'r **amcangyfrif** a'r **atodiad i'r amcangyfrif** yn cynnwys rhai amcanion eang ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau datganoledig Cymru yn 2021-22.

27. Yn seiliedig ar y meysydd gwaith eang hynny ac esboniad y Comisiwn Etholiadol o'r modd y cafodd yr amcangyfrif ei gyfrifo, mae'r costau trosfwaol a gynhwysir yn yr amcangyfrif yn ymddangos yn rhesymol. Ategir y safbwynt hwn gan gyngor y Prif Weinidog fod yr amcangyfrif a'r cynllun pum mlynedd yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cyfanswm yr amcangyfrif yn unol yn fras â'r ffigurau amcangyfrifedig a ddarparwyd gan y Comisiwn Etholiadol wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r **Ddeddf Senedd ac Etholiadau**.¹⁸

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2021-22 yn gyson â'r angen i'r Comisiwn Etholiadol arfer ei swyddogaethau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru.

Costau penodol a gynhwyswyd yn yr amcangyfrif

28. Mae'r prif ffigurau yn amcangyfrif y Comisiwn Etholiadol yn cynnwys:

- Ymgyrchoedd a hunaniaeth gorfforaethol (£559k)
- Adnoddau (255k)¹⁹
- Gweinyddu etholiadol – Cymru (£230k)²⁰

¹⁸ Memorandwm Esboniadol y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), paragraff 133, tudalen 436.

¹⁹ Roedd y wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 15 Hydref yn nodi bod y llinell gyllideb Adnoddau yn cynnwys costau'n ymwneud â thechnoleg gwybodaeth; cefnogaeth a gweinyddu canolog; cyfleusterau ac adeiladau; a chyllid a chaffael.

²⁰ Roedd y wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 15 Hydref yn nodi bod y llinell gyllideb 'gweinyddu etholiadol' yn cynnwys costau i'w hysgwyddo o ganlyniad i weithgareddau'r Comisiwn Etholiadol

- Rheoleiddio (£109k)²¹

29. Mewn perthynas ag 'ymgyrchoedd a hunaniaeth gorfforaethol' dywedodd Pennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru:

"Mae'r ffigwr yn cynnwys costau ar gyfer diwedd ymgyrch etholiadau'r Senedd ym mis Ebrill a dechrau Mai y flwyddyn nesaf a'r mwyafrif llethol o'r ymgyrch cyn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022. Ond, mae'n cynnwys tair elfen benodol ar gyfer y ddau etholiad: ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd—felly, yr hysbysebion teledu rydych chi'n eu gweld, ar-lein ac ar y radio cyn etholiad, yn annog cofrestru etholiadol a gwybodaeth i bleidleiswyr. Yr ail elfen yw gwaith ymgyrchu wedi ei dargedu yn benodol at gynulleidfaoedd megis y rheini sydd newydd eu hychwanegu i'r etholfraint, er enghraifft. Felly, pobl ifanc 16 ac 17 oed a gwladolion tramor ar gyfer etholiadau'r Senedd, ac rydym yn rhagweld hefyd ar gyfer yr etholiadau yn 2022, o ystyried y manylion yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)... A'r drydedd elfen, wedyn, byddai'r gwaith partneriaeth ledled Cymru. Byddwn yn annog ystod o randdeiliaid i ymgysylltu â'r deunyddiau cofrestru pleidleiswyr rydyn ni'n eu darparu."²²

30. Mae'r **Ddeddf Senedd ac Etholiadau** yn cynnwys darpariaethau i ganiatáu i bobl ifanc 16 ac 17 oed a gwladolion tramor bleidleisio yn etholiadau'r Senedd. Bydd y darpariaethau ar gyfer ymestyn yr etholfraint i'r grwpiau hyn yn weithredol ar gyfer etholiad y Senedd a gynhelir ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny. Mae'r **Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)** yn cynnig newidiadau tebyg i'r etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru, gan gynnwys paratoi ar gyfer etholiadau Senedd Cymru yn 2021 ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn 2022; datblygu a darparu arweiniad, adnoddau a chefnogaeth i ymgeiswyr, asiantau, Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a gweinyddwyr etholiadol; ac ymgysylltu ag awdurdodau lleol a Swyddogion Canlyniadau i gefnogi a herio'r modd y maent yn cyflawni digwyddiadau etholiadol gan ddefnyddio safonau perfformiad.

²¹ Roedd y wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 15 Hydref yn nodi bod y llinell gyllideb 'rheoleiddio' yn cynnwys datblygu canllawiau ar gyfer etholiadau perthnasol Cymru ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau; darparu cyngor i arweinwyr uniondeb (heddlu), ymgyrchwyr ac ymgeiswyr yng Nghymru; a chyhoeddi data ariannol yng Nghymru ac unrhyw waith cydymffurfio a gorfodi sy'n deillio o weithgarwch perthnasol yng Nghymru.

²² Pwyllgor y Llywydd, Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2020, paragraff 61.

31. Rhoddodd Pennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru dystiolaeth o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Comisiwn Etholiadol i godi ymwybyddiaeth ymhlith y grwpiau hyn sydd newydd eu hetholfreinio am eu hawl i bleidleisio, er enghraifft ymgyrchoedd yn y cyfryngau a pharatoi adnoddau addysgol. Dywedodd y bydd gwaith o'r fath yn parhau i'r flwyddyn ariannol nesaf, yn y cyfnod sy'n arwain at etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn 2022, a bod costau gwaith o'r fath yn cael eu cynnwys yn y llinell gyllideb 'ymgyrchoedd a hunaniaeth gorfforaethol':

"Mae cymaint o waith wedi'i wneud yn barod ac rŷn ni eisiau parhau â'r gwaith da hwn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, pan fyddwn ni'n atebol i chi, i sicrhau bod y grwpiau newydd yma, sy'n rhan o'r etholfraint newydd, yn ymwybodol o'u hawliau democrataidd."²³

32. Fel y nodwyd yn y **wybodaeth ychwanegol** a gyflwynwyd ar 15 Hydref, mae'r llinell gyllideb 'gweinyddu etholiadol' yn cynnwys costau cefnogi'r broses o gynnal etholiad Senedd Cymru ym mis Mai 2021 (er enghraifft o ran rhoi arweiniad ac adnoddau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol). Yn y **llythyr** a gyflwynodd gyda'i **amcangyfrif** dywedodd y Comisiwn Etholiadol y gallai'r pandemig Covid-19 effeithio ar y gwaith hwnnw:

Bydd etholiad y Senedd yn 2021 yn digwydd yng nghyd-destun y pandemig COVID-19. Bydd sicrhau bod gan y gymuned etholiadol y cydnerthedd i ymdopi â'r sefyllfa gyfnewidiol yn allweddol i'n gwaith wrth gefnogi'r etholiad, gan gadw anghenion pleidleiswyr yn flaenllaw yn ein hystyriaethau cynllunio fel eu bod yn gallu pleidleisio yn hyderus gan ddefnyddio eu dewis ddull pleidleisio. Byddwn yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru a'r gymuned etholiadol i gynllunio ar gyfer hyn... Pe bai newid sylweddol yn hynt y pandemig, neu'r ymagwedd bolisi tuag ato, cyn etholiadau 2021 a 2022, mae'n bosib y bydd angen mesurau pellach nad oes darpariaeth ar eu cyfer yn yr Amcangyfrifon rydym yn eu cyflwyno. Os felly, efallai y bydd gofyn i ni gyflwyno amcangyfrif atodol; byddem yn cydweithio'n agos â'ch swyddogion cyn cymryd y cam hwnnw."²⁴

33. Nid yw'r **amcangyfrif** a gyflwynwyd yn pennu costau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau dwyieithog. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Comisiwn Etholiadol ddarparu

²³ Pwyllgor y Llywydd, Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2020, paragraff 86.

²⁴ Llythyr at y Pwyllgor gan y Comisiwn Etholiadol, 1 Hydref 2020.

gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg a bod ei wybodaeth gyhoeddus ar gael yn y ddwy iaith.²⁵ Esboniodd Pennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru sut mae costau cyfieithu wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrif:

“Mae yna gyfieithydd llawn amser yn gweithio i'r Comisiwn yng Nghymru fel aelod o staff, ac mae ei gostau ef o ran gwaith mewnol ac allanol sydd yn berthnasol i etholiadau datganoledig wedi'u cynnwys yn y llinell cyllideb ar gyfer Cymru. Mae yna hefyd rhai costau cyfieithu ar gyfer prosiectau penodol fel gwella'r ddarpariaeth o ganllawiau ar-lein, er enghraifft, ac mae hefyd wedi'i gynnwys yn y llinellau cyllideb sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd perthnasol hynny.”²⁶

Safbwynt y Pwyllgor

34. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Comisiwn Etholiadol nawr a'r gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, i helpu i godi ymwybyddiaeth am hawliau pleidleisio ymhlith grwpiau sydd newydd eu hetholfreinio ac i gefnogi etholiad Senedd Cymru a'r etholiadau llywodraeth leol nesaf. Mae'r Pwyllgor o'r farn y bydd gwaith o'r fath yn hanfodol i allu cyflawni'r etholiadau hynny'n effeithiol.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn Etholiadol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw gynnydd yn y costau yn sgil y pandemig Covid-19 ac a yw'n debygol y bydd angen amcangyfrif diwygiedig ar gyfer y costau hynny.

Cyflwyno'r amcangyfrif

35. Mae'r **amcangyfrif** a gyflwynwyd yn cynnwys penawdau a chostau eang, gyda rhywfaint o esboniad am y costau penodol ym mhob llinell gyllideb. Mae'r **amcangyfrif** a gyflwynwyd yn llai manwl na'r amcangyfrifon a gyflwynwyd i Senedd Cymru gan gyrff a ariannwyd eisoes o Gronfa Gyfunol Cymru.

36. Oherwydd nad oedd llawer o fanylder yn yr **amcangyfrif** a gyflwynwyd, gofynnodd y Pwyllgor am **wybodaeth esboniadol ychwanegol**, a chafodd y wybodaeth honno. Bu'r

²⁵ Mae'n ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a osodir yn unol â Mesur Iaith Cymru (Cymru) 2011.

²⁶ Pwyllgor y Llywydd, Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2020, paragraff 100.

wybodaeth ychwanegol o gymorth i'r Pwyllgor gyda'i ystyriaeth gychwynnol o'r amcangyfrif.

37. Pan ofynnwyd iddo a fyddai'n bosibl cyflwyno amcangyfrifon manylach yn y dyfodol, atebodd y Cyfarwyddwr Cyllid fel a ganlyn:

"We gave a commitment at the beginning of this process to provide information in whatever form the various Parliaments require, so we will continue to work with your officials to do that."²⁷

Safbwynt y Pwyllgor

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn Etholiadol yn cyflwyno amcangyfrifon ariannol manylach yn y dyfodol i gynnwys costau penodol ym mhob llinell gyllideb, ynghyd â chyfansymiau costau penodol o'r fath ac esboniad o'r modd y cafodd y costau eu cyfrifo.

Dibrisiant

38. Mae gwerth £73,000 o ddibrisiant wedi'i gynnwys yn yr **amcangyfrif** fel cost anuniongyrchol. Mae cyrff sydd eisoes yn cael eu cyllido o Gronfa Gyfunol Cymru fel arfer yn gwneud addasiadau i ddileu eitemau nad ydynt yn rhai arian parod, fel dibrisiant, o'u hamcangyfrifon wrth gyfrifo'r arian parod net sydd ei angen, hynny yw y swm arian parod gwirioneddol sydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru. Yn hyn o beth mae'r **amcangyfrif** a gyflwynwyd gan y Comisiwn Etholiadol yn anghyson â'r amcangyfrifon a gyflwynwyd i Senedd Cymru gan gyrff sydd eisoes yn cael eu cyllido o Gronfa Gyfunol Cymru. Wrth fynd i'r afael â'r pwynt hwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid:

"...darperir cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru fel arian parod. Gan nad oes gan ddibrisiant, fel arfer, berthynas uniongyrchol ag all-lif arian parod, mae cyllid o'r fath fel arfer yn cwmpasu gwariant cyfredol ac eithrio dibrisiant, gan ychwanegu gwariant cyfalaf. Mewn trafodaethau cynnar â Llywodraeth Cymru a swyddogion y Senedd, roeddem wedi bod yn gweithio yn ôl y rhagdyb y byddai'r cyllid yn unol â'r arfer hwnnw...Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol ei bod yn normal, lle caiff swyddogaethau eu trosglwyddo o San Steffan i'r Senedd neu Lywodraeth Cymru, i Drysorlys EM drosglwyddo'r cyllid cysylltiedig o'r adran berthnasol ar lefel y DU i'r bloc cyllid datganoledig yng

²⁷ Pwyllgor y Llywydd, Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2020, paragraff 52.

Nghymru...Cysylltwyd â swyddogion Trysorlys EM gan y Comisiwn Etholiadol a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd am eu cyngor technegol o ran sut orau i sicrhau trosglwyddo'r bloc cyllid datganoledig, a sicrhau bod y cyllid sy'n ddyledus i'r Comisiwn yn parhau i fod wedi ei alinio. Eu cyngor cadarn oedd y gellid cyflawni hyn orau trwy gyfri'r ddau ar sail gwariant cyfredol gan gynnwys dibrisiant. Mae'r Comisiwn yn fodlon i gael ei gyllido ar y sail hon gan ei bod yn bodloni gofynion ariannol y mae swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Senedd wedi eu canfod, ac mae hefyd yn gyson â chyngor Trysorlys EM."²⁸

Safbwynt y Pwyllgor

39. Mae'r Pwyllgor yn nodi ac yn derbyn yr esboniad a ddarperir ar gyfer cynnwys dibrisiant yn yr amcangyfrif ar gyfer 2021-22. Mae'r Pwyllgor yn rhagweld y bydd angen ystyried ymhellach, mewn ymgynghoriad â'r Comisiwn Etholiadol a Llywodraeth Cymru, y goblygiadau posibl o adlewyrchu dibrisiant yn amcangyfrifon y Comisiwn Etholiadol yn y dyfodol ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru, ac a ddylai arfer o'r fath barhau.

Casgliad 2. Bydd y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth bellach i'r goblygiadau posibl i Gronfa Gyfunol Cymru o gynnwys dibrisiant yn amcangyfrifon y Comisiwn Etholiadol yn y dyfodol.

Y cynllun pum mlynedd ar gyfer 2024-25

40. Y **cynllun pum mlynedd** a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yw Cynllun Corfforaethol Dros Dro y Comisiwn Etholiadol ar gyfer y cyfnod rhwng 2020-21 a 2024-25.

41. Cytunwyd ar y **Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2024-25** gan Bwyllgor Llefarydd Senedd y DU ym mis Mawrth 2020 cyn cychwyn y darpariaethau deddfwriaethol i ddatganoli trefniadau cyllido ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol. Yn y **cynllun** hwnnw, nodwyd y bydd y Comisiwn Etholiadol, o fis Medi 2020 ymlaen, yn atebol i Senedd Cymru am ei waith ar etholiadau datganoledig Cymru. Cyfeiriwyd hefyd rai meysydd gwaith eang i'r Comisiwn Etholiadol yn sgil y **Deddf Senedd ac Etholiadau** ac wrth baratoi ar gyfer y **Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**.

²⁸ **Llythyr** at y Pwyllgor gan Gyfarwyddwr Cyllid y Comisiwn Etholiadol, 6 Tachwedd 2020.

42. Nid oedd y cynllun yn cynnwys nodau ac amcanion y Comisiwn Etholiadol yn benodol mewn perthynas â'i waith o ran rheoleiddio a chefnogi etholiadau a refferenda datganoledig Cymru.

43. Yn ei **adroddiad** i'r Pwyllgor nododd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol:

"The Commission has a good track record of financial management, remaining within its estimates, despite a period of intense and unpredictable electoral activity. Its financial statements have been reliable, confirming that its accounts have been materially true and fair and that resources have been used in accordance with Parliament's intentions. The Commission has undertaken sound work to evaluate the effectiveness of some of its activities"²⁹

44. Hefyd, soniodd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn ei **adroddiad** y byddai'r cynllun yn cael ei wella gyda rhagor o fanylion am gostau, amserlen a cherrig milltir ar gyfer prosiectau mawr yn ystod cyfnod y cynllun ynghyd â mesurau perfformiad i fesur gwerth am arian y Comisiwn Etholiadol yn well.³⁰

45. Soniodd Prif Weithredwr y Comisiwn Etholiadol am fwriad y Comisiwn i baratoi cynllun pum mlynedd wedi'i ddiweddarau. Bydd hwn yn cael ei gyflwyno yn ystod ail hanner 2021 er mwyn rhoi cyfle i Gadeirydd newydd y Comisiwn Etholiadol, sydd i fod i gael ei benodi ar ddechrau 2021, ystyried y cynllun cyn ei gyflwyno. Bydd yr amserlen hon hefyd yn golygu bod y cynllun yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan Aelodau o'r Senedd newydd yn dilyn etholiad Senedd Cymru yn 2021.

46. Wrth ymateb i argymhellion y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, dywedodd y Prif Weithredwr:

"we have increasingly, over the last few years, been moving to a much more project-based approach to work with up-to-date systems. So, we do have that data. I think it's going to be pretty straightforward for us to actually transfer that in a meaningful way in the plan"³¹

²⁹ Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Arweiniad Cryno i'r Comisiwn Etholiadol, (Saesneg yn unig) Mawrth 2020, tudalen 5.

³⁰ Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Arweiniad Cryno i'r Comisiwn Etholiadol, (Saesneg yn unig) Mawrth 2020, tudalen 5.

³¹ Pwyllgor y Llywydd, Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2020, paragraff 114.

47. Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd fod y Comisiwn Etholiadol yn chwilio am fesurau llawer mwy ansoddol sy'n dangos effaith.³²

Safbwynt y Pwyllgor

48. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y **Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2024-25** wedi cael ei baratoi cyn i'r ddarpariaeth i ddatganoli trefniadau cyllido ac atebolwydd y Comisiwn Etholiadol ddod i rym ac y bydd cynllun newydd yn cael ei baratoi yn fuan. Nid yw'r cynllun a gyflwynwyd yn cynnwys manylion am y modd y caiff swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru eu cyflawni. Fodd bynnag, cafodd y Pwyllgor ei sicrhau gan ddatganiadau cadarnhaol y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ynghylch cyflawni swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol yn gyffredinol.³³

Casgliad 3. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y cynllun pum mlynedd a gyflwynwyd yn gyson â'r angen i'r Comisiwn Etholiadol arfer ei swyddogaethau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, sy'n cynnwys swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y cynllun pum mlynedd newydd yn cynnwys cymaint o fanylion â phosibl am y modd y bydd swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru yn cael eu harfer yn ystod cyfnod y cynllun, gan gynnwys costau, amserlenni a cherrig milltir ar gyfer y gwaith hwn.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y cynllun pum mlynedd newydd yn nodi mesurau perfformiad sy'n benodol i gyflawni swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru.

³² Pwyllgor y Llywydd, Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2020, paragraff 110.

³³ Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Arweiniad Cryno i'r Comisiwn Etholiadol, (Saesneg yn unig) Mawrth 2020, tudalen 5.

Atodiad: Yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2021-22

Costau'r Senedd	2021-22
	£000s
Costau Uniongyrchol	
Gweinyddu Etholiadol	
Cymru	230
Cefnogaeth	5
Canllawiau	92
Cefnogaeth a Gwelliant	80
	407
Cyfreithiol	
Cyfreithiol	97
Rheoleiddio	109
	206
Cyfathrebu, polisi ac ymchwil	
Ymgyrchoedd a Hunaniaeth Gorfforaethol	559
Cyfathrebu a dysgu digidol	64
Cyfathrebu allanol	34
Ymchwil	63
Polisi	89
	809
Cyfanswm Costau Uniongyrchol	1,422
Costau Anuniongyrchol	
Adnoddau	255
Dibrisiant	73
	328
Cyfanswm Costau Anuniongyrchol	328
Cyfanswm cyfraniad	1,750